Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher 9fed Ionawr, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00 pm

Presennol: Cyng Ieuan Gwyn, Y Maer Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Hugh Towns, Cyng Christopher Parish, Cyng Ros Bellamy,
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : Cyng Roy Davies

Cof 237 / Ionawr / 08 Anfonebau i'w talu.

Penderfynwyd y dylid talu'r anfonebau canlynol

WCVA (Cyflogau Rhagfyr07)	£ 178.24
WCVA (Gweinyddiaeth Rhagfyr 07)	£ 35.54
BT (rhent y ffôn swyddfa)	£ 60.48
Costau'r Clerc (postio)	£ 83.76
Cledwyn Moses (archwilio toeon)	£ 75.00
Davies Electrics (gosod goleuadau Nadolig)	£ 3,966.42

Cof 238 / Ionawr/ 08 Incwm a Dderbyniwyd Rhagfyr 2007

Hysbysebion Tân Gwyllt	£ 260.00
Archebiant Cyfrif Rhif 1 CSC	£ 15,891.33
Llog Cyfrif Cyfredol	£ 0.32

Cof 239 / Ionawr/08 Balansau'r Cyfrifon

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** adroddiad ar gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL (31.12.07)	£ 11,275.88
LTC CYFRIF CYNILO (27.12.07)	£ 9,130.02
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.12.07)	£ 1,677.54
Bond Llog Cynilo Uchel	£ 50,000.00

Cof 240 / Ionawr / 08 Balansau o'r Arddangosfa Tân Gwyllt ar 31.12.07

Incwm		Gwariant	
Arian wrth y gât	£ 1855.00	Fireworks Int.	£ 1,727.49
	£ 589.97	Pains Fireworks	£ 1,454.02
		Relms signs	£ 48.00
Hysbysebion	£ 1570.00	Nice Price News	£ 40.08

		JW Thomas (rhaglenni)£	985.00
		Llogi Byrddau	£ 15.00
		Relms Signs (baner)	£ 56.40
		Carm & Pumsaint Farmers	£ 144.00
Cyfansymiau	£ 4,014.97		£ 4,469.99
Gwahaniaeth	£ 455.02		

Adolygir balans yr Hysbyseb Tân Gwyllt eto mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn

Cof 241 / Ionawr / 08 Materion Ariannol Eraill

1. Adroddiad y Gyllideb hyd at ddiwedd Rhagfyr 2007.
   Dosbarthwyd yr adroddiad hwn gan y Swyddog Cyllid a chafodd ei dderbyn.
2. Rhagolygon Cyllidebol Tair Blynedd.
   Rhoddodd y Swyddog Cyllid fanylion o'r rhagolygon a wnaed. Argymhellwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid dangos y symiau a ddyrannwyd ar y rhagolygon, i'w adolygu yng nghyfarfod Cyllid mis Mawrth. Roedd pawb o blaid.
3. Yn dilyn y codiadau cyflog diweddar dosbarthodd y Swyddog Cyllid y strwythurau cyflog newydd i Staff. Cytunwyd ar y rhain yn y cyfarfod diwethaf. Gofynnodd Mr Plummer am ganiatâd i gynyddu'r rheol sefydlog sy'n ddyledus i WCVA i £660.05, i gynnwys swm cyflogau o £220.28. Roedd pawb o blaid.

Cof 242 / Ionawr / 08 Gohebiaeth Parthed Cyllid

1. CSC - rhybudd yr amcangyfrifon y bydd prisiau ynni yn codi 36%
2. CSC – rhybudd o daliadau sylfaenol Treth y Cyngor o £777.27 ar gyfer eiddo band D.
3. Adroddwyd bod angen trwsio meinciau'r Cyngor. Cytunwyd y dylai'r Swyddog Technegol eu harchwilio a chwilio am brisiau os oes angen.
4. Cais gan y Swyddog Technegol i dderbyn ffôn/camera symudol. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins bod £100 yn cael ei glustnodi er mwyn i Mr Davies brynu'r eitem. Eiliwyd hyn gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 243 / Ionawr/ 08 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55 pm.